



The Open  
University  
Y Brifysgol  
Agored

WALES CYMRU

## Leanne



Pan ddechreuais i greu gwrthrychau dysgu ar-lein, ces i fy synnu faint o amser roedd yn ei gymryd. O gymharu â'm profiadau addysgu wyneb yn wyneb blaenorol, bu'n rhaid i mi newid y ffordd roeddwn i'n cynllunio ar gyfer cyfleoedd dysgu yn sylweddol wrth fynd â nhw ar-lein. Sylweddolais i'n gyflym nad yw'r gallu sydd gennych yn y dosbarth i newid y cyfeiriad ac addasu yn unol ag anghenion dysgwyr yn gyflym yn bodoli, felly roedd angen meddwl llawer mwy ymlaen llaw am y gwahanol lwybrau y gallai myfyrwyr eu dilyn.

Er bod hyn i weld braidd yn frawychus i ddechrau, daeth y manteision i fyfyrwyr i'r amlwg yn fuan. Gallent gael mynediad at y dysgu ar adeg, mewn lleoliad, ac ar gyflymdra a oedd yn briodol iddyn nhw fel unigolion. Mae creu bathodynau digidol yn rhywbeth sydd wedi cael effaith benodol ar fy ymarfer addysgu. Ar ôl bod yn llawn cymhelliant pan ddyfarnwyd bathodynau digidol i fi ar gwrs ar-lein roeddwn i'n ei gwblhau, penderfynais eu defnyddio gyda'm myfyrwyr.

Yn y gorffennol, roeddwn i'n ei chael yn anodd cydnabod ac olrhain y cynnydd a wnaed gan fyfyrwyr ar-lein wrth gaffael sgiliau. Roedd hyn yn hynod bwysig yn fy nghydestun i, gan fod myfyrwyr yn astudio cwrs bioleg ymarferol. Trwy gyflwyno ystod o fathodynau digidol i gynrychioli'r sgiliau amrywiol a ddatblygwyd ar y cwrs, roedd gan fyfyrwyr ffordd o ddangos y cynnydd roedden nhw'n ei wneud.

Gall creu gwrthrychau dysgu fod yn llafurus i ddechrau, ond bydd yn arbed amser i chi yn y pen draw. Byddwn i'n argymhell i unrhyw un fynd â'u haddysgu ar-lein yn hyn o beth.